

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth
Ychwanegol
Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Paratoadau
yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio
EAAL(5) EUP12
Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Lleol
Cymru (CLILC)

Welsh Parliament
External Affairs and Additional Legislation
Committee
Exiting the European Union: Preparedness in
Wales for the end of the transition period
Evidence from Welsh Local Government
Association (WLGA)

Cyflwyniad

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yn aelodau cyswllt.
2. Ei nod yw cynrychioli awdurdodau lleol o fewn fframwaith polisi datblygol sy'n cyflawni blaenoriaethau allweddol ein haelodau ac yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth at Lywodraeth Leol Cymru a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
3. Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd ar barodrwydd yng Nghymru ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r UE.

Ymateb i gwestiynau

4. Mae ymatebion i'r pedwar prif bwnc a restrir ar gyfer yr ymgynghoriad wedi eu nodi isod. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol mor barod ag y gallant fod, o ystyried yr amodau heriol maent yn eu wynebu ar hyn o bryd, a'r ansicrwydd parhaol ynglŷn â pha gytundebau masnach a chytundebau eraill fydd yn eu lle o 1 Ionawr 2021. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn adnewyddu'r asesiadau risg a'r cynlluniau wrth gefn y bu iddynt eu paratoi y llynedd ar gyfer 'Brexit heb gytundeb', fel eu bod yn addas os bydd cyfnod pontio'r UE yn dod i ben heb unrhyw gytundeb masnach neu gytundeb gwan yn unig.

Camau Gweithredu gan Lywodraeth Cymru i baratoi Cymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio

5. O safbwynt llywodraeth leol, mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi ymgysylltu'n adeiladol gyda CLILC ac awdurdodau lleol er mwyn cynorthwyo gyda pharodrwydd mewn amrywiol ffyrdd, fel a ganlyn:
 - i. **Grŵp Cyngori ar Ewrop** – Mae'r Cyngorydd Rob Stewart¹ yn aelod o'r Grŵp lefel uchel Cyngori ar Ewrop a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd fudd-ddeiliaid o amrywiaeth o safbwyntiau i dderbyn y newyddion diweddaraf a rhannu barn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion eraill.

¹ Y Cyng Stewart yw Is Arweinydd CLILC a'r Llefarydd ar Ddatblygu Economaidd, Ewrop, ac Ynni.

- ii. **Panel Parodrwydd (UE) Llywodraeth Leol** – mae panel o uwch swyddogion llywodraeth ar lefel Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr wedi bod yn cyfarfod gydag amrywiaeth o swyddogion LIC, fel bo'n briodol, yn fisol er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf a chynghor strategol ynglŷn a sut i ymdopi ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae cynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol wedi eu dewis ar sail rhanbarthol ac maent yn gweithio gyda chymheiriaid yn eu rhanbarthau er mwyn rhannu gwybodaeth
- iii. **Grwpiau gwasanaethau penodol** – mae amrywiol grwpiau yn cyfarfod ar lefel gwleidyddol a swyddogion gan edrych ar y materion pontio UE sy'n wynebu meysydd gwasanaeth penodol gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, economi a busnes, canol trefi, amaeth a materion gwledig, egwyddorion amgylcheddol .
- iv. **Cyfarfodydd gwleidyddol** – Mae Arweinyddion CLILC wedi bod yn cwrdd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd er mwyn derbyn y newyddion diweddaraf a thrafod pryderon. Yn benodol, mae'r Cynghorydd Rob Stewart a'r Cwnsler Cyffredinol yn cael cyfarfodydd dwyochrog misol. Mae Gweinidogion eraill yn ymuno â'r cyfarfodydd hynny, yn dibynnu ar y pynciau sy'n cael eu trafod. Mae Gweinidogion hefyd wedi darparu diweddariadau i gyfarfodydd gwleidyddol a drefnir gan neu gyda CLILC, fel y Cynghor Partneriaeth, Aelodau Cabinet Datblygu Economaidd a Fforwm Gwledig CLILC.
- v. **Cyfarfodydd rheolaidd swyddogion LIC / CLILC** – mae swyddogion CLILC a LIC sydd yn gweithio ar gyfnod pontio'r UE wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn cynnal trosolwg a chytuno ar ddulliau a chymau gweithredu y teimlir eu bod yn angenrheidiol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi eu cynnal mewn dull agored a chadarnhaol, gan weithio'n effeithiol gyda'i gilydd, fel un tîm.
- vi. **Cyllid ar gyfer cydgyssylltwyr awdurdodau lleol** – dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae LIC wedi darparu cyllid drwy CLILC i alluogi pob Awdurdod Lleol i sefydlu swydd cydgyssylltydd. Mae'r swyddi hyn wedi chwarae rôl allweddol mewn cyfathrebu dwy ffordd – rhaedru gwybodaeth ar draws Awdurdodau Lleol a bwydo yn ôl ar barodrwydd lleol a phroblemau sy'n ymddangos. Mae'r cydgyssylltwyr wedi bod yn gyfrifol am gynnal asesiadau risg a datblygu cynlluniau wrth gefn
- vii. **Cyllid ar gyfer rhaglen gefnogi CLILC** – Mae CLILC wedi derbyn cyllid gan LIC er mwyn darparu cefnogaeth i Awdurdodau Lleol. Golyga hyn ei bod wedi bod yn bosib gwneud gwaith a'i gomisiynu unwaith ac yna ei rannu gyda'r holl Awdurdodau Lleol, yn hytrach na bod y 22 yn cynnal astudiaethau tebyg yn annibynnol. Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen gymorth, trefnwyd nifer o gyfarfodydd, yn amlygu materion allweddol sy'n wynebu meysydd gwasanaeth a chanolbwynt corfforaethol yr Awdurdodau Lleol. Darparwyd dadansoddiad data a phhecyn gwaith hefyd i Awdurdodau Lleol i'w cynorthwyo yn eu paratodau. Eleni, oherwydd cyfyngiadau Covid, mae cyfarfodydd wedi bod ar-lein ac wedi canolbwyntio ar gyfarfodydd 'dal i fyny' rheolaidd gyda chydgyssylltwyr yr Awdurdodau Lleol, er mwyn hwyluso rhannu arferion da a gwybodaeth. Er mwyn cefnogi'r rhaglen, comisiynodd CLILC ymgynghorwyr i gynhyrchu deunyddiau ac astudiaethau ar gyfer Awdurdodau Lleol. Dyfarnwyd y contract i Grant Thornton ac maent wedi cynhyrchu deunyddiau hynod

ddefnyddiol, sydd i gyd ar gael drwy wefan CLILC: <https://www.wlga.cymru/brexit-transition-support-programme-for-welsh-local-authorities>

- viii. **Cefnogaeth gyllidol arall** – Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth cyllidol ar lefel isel i Awdurdodau Lleol er mwyn cynorthwyo eu gwaith o safbwynt hyrwyddo Cynllun Preswlydd Sefydlog yr UE i ddinasyddion yr UE o'r tu allan i'r DU, paratoi ar gyfer y cynnydd disgwylidig mewn galw ar gyfer Tystysgrifau Iechyd Allforio, a sefydlu llwybrau cymorth ar gyfer y bobl sy'n wynebu tlodi bwyd.
- ix. **Cyfarfodydd gydag Awdurdodau Lleol unigol** – mae LIC wedi cynnal cyfarfodydd gydag Awdurdodau Lleol unigol ble bo'n briodol. Yr enghraifft orau o hyn yw'r gwaith sy'n cael ei wneud gydag Ynys Môn a Sir Benfro o ran gwaith paratoi yn y porthladdoedd yn yr ardaloedd hynny.
- x. **Gwefan a chyhoeddiadau LIC** – mae LIC wedi cynhyrchu cyfres o adroddiadau ac eitemau gwybodaeth a dogfennau canllawiau sydd ar gael ar y wefan <https://llyw.cymru/ue-cyfnod-pontio-brexit>

Mae effaith yr holl gamau gweithredu uchod gan LIC wedi bod yn sylweddol. Mae wedi sicrhau fod gwybodaeth dda yn llifo a galluogi amrediad o gamau gweithredu sy'n hanfodol o safbwynt paratoi ar gyfer ac ymateb i ddiwedd y cyfnod pontio.

Parodrwydd sectorau economaidd allweddol yng Nghymru

6. Mae pryderon gan CLILC ynglŷn â pha mor barod yw busnesau ar draws yr holl sectorau ar gyfer y newidiadau sydd ar ddod. Mae peth newid yn anorod, waeth beth fydd canlyniadau'r trafodaethau cyfredol rhwng Llywodraeth y DU a'r UE. Mae busnesau eisoes yn wynebu cyfnod heriol iawn o ganlyniad i bandemig Coronafeirws. Mae sawl cwmni, yn enwedig Cwmnïau Bach a Chanolig, yn annhebygol o fod wedi gallu ymrwymo amser ac adnoddau i baratoi ar gyfer newidiadau yn deillio o gyfnod pontio'r UE.

7. I fod yn deg, mae'n anodd i gwmnïau baratoi yn fanwl tra bod ansicrwydd yn parhau dros ganlyniadau'r trafodaethau cyfredol dros fasnach a'r berthynas gyda'r UE yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos fod rhai busnesau wedi cymryd y camau elfennol sydd angen eu cymryd o ran mewnfurio ac allforio hyd yn oed (fel caffael rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI) ²). Yn yr un modd mae'n ymddangos fod llawer o gwmnïau, sydd yn masnachu'n uniongyrchol o fewn y DU yn unig, yn credu na fyddant yn cael eu heffeithio. Mewn gwirionedd, gallai eu llinellau cyflenwi gael eu heffeithio mewn rhai llefydd, mae'n bosib y bydd prisiau yn newid, gallai eu marchnadoedd cyfredol gael eu heffeithio (neu eu colli yn llwyr) ac mae'n bosib y gallent ddioddef problemau yn eu cyflenwad llafur, o ganlyniad i broblemau oherwydd diwedd cyfnod pontio'r UE.

² Mae'r Rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI) eisoes yn ofyniad at ddibenion tollau i fusnesau sydd yn dymuno symud nwyddau rhwng y DU a gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE. O 1 Ionawr 2021 bydd angen rhif EORI i symud nwyddau rhwng Prydain Fawr (a Gogledd Iwerddon o bosib) a'r UE. Os na all CThEM glirio'r nwyddau, mae'n bosib y bydd yn rhaid i gwmnïau dalu ffioedd storio.

8. Mae CLILC wedi comisiynu adroddiad gan Grant Thornton ar effaith dim cytundeb masnach neu gytundeb masnach gwan³. Mae'r adborth maent wedi ei dderbyn gan gwmnïau a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli fel rhan o'r gwaith hwn wedi atgyfnerthu'r pryderon uchod ynglŷn â diffyg parodrwydd. Mae'r rhan fwyaf o adrannau datblygu economaidd awdurdodau lleol wedi eu lleihau dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i doriadau, ac adnoddau cyfyngedig iawn, neu ddim adnoddau, sydd ganddynt i gynnal cymorth busnes wyneb yn wyneb. Mae ansicrwydd parhaol o safbwynt sawl mater yn ei gwneud yn anodd ac yn beryglus i'r Awdurdodau Lleol gynnig cyngor. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr oll mae'n bosib iddynt ei wneud yw cyfeirio busnesau at ffynonellau cymorth a'r wybodaeth ddiweddaraf, fel Busnes Cymru, gwefan Paratoi Cymru Llywodraeth Cymru, ac UK.GOV.

9. Mae rhai sectorau yn fregus mewn dwy ffordd, a hynny oherwydd effaith Covid, ac effeithiau trosglwyddiad yr UE. Mae **Twristiaeth** yn enghraifft o hynny. Mae Covid wedi tansilio hanfod y sector yn llwyr, a hynny drwy gyfyngu ar symudiadau pobl. Roedd eisoes yn sector a ystyriwyd mewn peryg o ganlyniad i'r ffaith fod y DU yn gadael yr UE, gan fod y sector yn dibynnu'n helaeth ar lafur o'r UE a'r tu allan i'r DU. Os bydd niferoedd sylweddol o'r gweithlu hwnnw yn penderfynu dychwelyd i'r UE ac / neu os bydd rheolau mewnfudo newydd yn cyfyngu ar y niferoedd sy'n cael dod i weithio i'r DU, gallai'r sector ei chael hi'n anodd recriwtio yn y cyfnod adfer y dyhëir amdano ar ôl Covid.

10. Mae'r sector **awyrofod** wedi dioddef yn fawr o'r lleihad mewn teithio awyr o ganlyniad i Covid. Mae hefyd yn un o'r sectorau lle bydd goblygiadau mawr yn codi yn ddibynnol a yw cytundeb masnach yn cael ei gytuno gyda'r UE. Byddai gosod tariff ac / neu rwystrau nad yw'n ar gynnwch fydd yn symud rhwng y DU a'r UE yn golygu cynnydd mewn costau a gallai hynny ddylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol. Byddai unrhyw newid dros amser tuag at grynhoad o gynhyrchu o fewn yr UE er mwyn osgoi'r costau hyn yn cael effaith niweidiol iawn ar rai economïau yng Nghymru. Byddai'r effeithiau hyn yn uniongyrchol, ond hefyd yn anuniongyrchol, o ystyried yr effaith lluosydd negyddol ar wariant lleol ac ar gwmnïau gwasanaeth a chyflenwi sydd ar hyn o bryd yn elwa o'u presenoldeb a'u gweithrediad.

11. Fel gyda'r maes awyrofod, mae'r sector **cerbydau modur** â heriau ychwanegol yn gysylltiedig â newid hinsawdd a'r angen i ddatgarboneiddio. Gyda'r newid oddi wrth gerbydau petrol a disel a thuag at gerbydau trydan, a hydrogen o bosib, bydd angen ail-fuddsoddi. Bydd hyn yn effeithio ar gadwyni cyflenwi, gyda newidiadau yn yr amrywiaeth o gydrannau angenrheidiol. Fel y nodir uchod, gallai penderfyniadau ar y don nesaf o fuddsoddiad gael eu dylanwadu gan natur (neu ddiffyg) unrhyw gytundeb masnach. Gallai effeithiau penderfyniadau gan gwmnïau amlwg yn y diwydiant atseinio drwy'r sector. Mae'r pryderon hyn dros gynlluniau buddsoddi yn y dyfodol yr un mor berthnasol i amrywiaeth o weithrediadau **gweithgynhyrchu** eraill yng Nghymru.

12. Mae **Amaethyddiaeth** yn sector arall sydd mewn perygl mawr os bydd tariffau mawr yn cael eu gosod ar allforion i'r UE, fyddai'n golygu na allai cynnyrch y DU fod yn gystadleuol. Er bod llawer o waith wedi ei wneud i nodi effeithiau posib amrywiol senarios, mae'r dewisiadau i ffermwyr Cymru yn gyfyngedig, yn enwedig i ffermwyr defaid mynydd. Yn yr un modd, mae pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o gytundebau masnach gyda gwledydd eraill sydd â safonau lles anifeiliaid is ac /

³ Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo a disgwylir y bydd yr adroddiad yn barod yn gynnar fis Tachwedd.

neu gostau llafur is, fyddai'n golygu mewnfurion bwyd a fyddai'n rhatach na chynnyrch cynhyrchwyr domestig. Mewn cyfnod pan mae disgwyl i ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd gynyddu yn sylweddol, bydd pris nwyddau yn ffactor penderfynu o safbwynt dewis cwsmeriaid. Mae'n bosib mai marchnad gyfyngedig fydd i gynnyrch bwyd o safon uchel a gynhyrchir yn ddomestig.

Mae **Pysgodfeydd** hefyd, yn wynebu heriau sylweddol. Mae eu hallforion (pysgod cregyn yn benodol i Gymru) yn ddarvoudus ac felly mae'n rhaid cyflenwi o fewn amser penodol. Byddai oedi mewn porthladdoedd yn lleihau atyniad y cynnyrch a gallai hynny olygu colli marchnadoedd wrth i gyflenwyr eraill gael eu darganfod.

13. Yn gyffredinol mae llai o sylw wedi ei roi i effaith diwedd y cyfnod pontio ar y **sector gwasanaethau**. Fodd bynnag, gallai rhai o'r goblygiadau fod yr un mor ddifrifol mewn nifer o feysydd fel **gwasanaethau ariannol** a **rheoli data**. Os na fydd gofynion 'digonolrwydd' yr UE yn cael eu bodloni, gallai hyn olygu colli marchnadoedd ac / neu fynediad at wybodaeth pan na fydd y DU yn rhan o'r UE bellach.

Y goblygiadau ar gyfer parodrwydd yn codi o'r trafodaethau ynglŷn â chytundebau rhyngwladol y DU, gan gynnwys gan gynnwys y cytundeb (neu gytundebau) ar gyfer y berthynas rhwng y DU – UE yn y dyfodol, cytundebau masnach rydd nodedig eraill (e.e. DU – UDA, DU – Japan, DU – Awstralia, DU – Seland Newydd ac ati), a'r Rhaglen Trafod a Chydgysylltu Parhad (a elwid yn flaenorol yn Raglen y Cytundeb Parhad Masnach)

14. Prif oblygiadau'r trafodaethau uchod yw'r ansicrwydd sy'n bodoli cyn gwybod y canlyniadau, ac felly'n ei gwneud yn anodd paratoi. Gobeithir y bydd yr ymchwil gan Grant Thornton y cyfeirir ato uchod yn darparu mwy o syniad o'r materion ynghylch diffyg cytundeb masnach neu gytundeb masnach gwan gyda'r UE.

15. Er bod y ffocws ar hyn o bryd ar y posibilrwydd o gytundeb masnach rhydd, mae sawl agwedd ar wahân i fasnach sy'n berthnasol i berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae rhain yn cynnwys cwestiynau dros gydweithio ar ynni, y diwydiant awyrennau, telegyfathrebu, cydweithio ar ymchwil, rhannu data, gorfodi'r gyfraith, cydgysylltu diogelwch cymdeithasol a phresenoldeb mewn rhaglenni UE yn y dyfodol ac ati. Bydd canlyniadau trafodaethau ar yr holl feysydd hyn yn bendant o achosi goblygiadau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n aneglur beth fydd y goblygiadau hynny. Mae'n anodd paratoi heb wybodaeth o'r fath. Mae angen mwy o wybodaeth ar ganlyniadau posib a beth fyddent yn ei olygu yn ymarferol, i alluogi mewnbwn deallus i drafodaethau ble bo'r angen yn y man cyntaf, ac yna er mwyn gwneud gwaith paratoi. O safbwynt llywodraeth leol, *mae'n bosib* mai cyfyngedig fydd goblygiadau uniongyrchol yr agweddau eraill hyn o gysylltiadau yn y dyfodol, ond nid yw'n bosib dweud yn bendant ar hyn o bryd. Er enghraifft, gallai unrhyw gyfyngiadau ar lif a chyfnwid data yn rhydd achosi niwed sylweddol i rai gwasanaethau.

16. Mewn perthynas â chytundebau masnach eraill o dan drafodaeth neu i'w 'symud drosodd' o gytundebau masnach rhydd presennol yr UE mae dau brif bwynt i'w gwneud. Yn gyntaf, mae'r rhain yn llai yn gyffredinol o ran maint a gwerth na'r cytundeb masnach posib gyda'r UE. Yn ail, mae'n bosib fodd bynnag y gallai elfennau penodol o'r cytundebau hyn gael effaith sylweddol ar fusnesau yng Nghymru. Fel yr amlinellir uchod, er enghraifft, gallai cytundebau masnach rydd gyda gwledydd sy'n caniatáu mewnfurio cynnyrch bwyd cost isel danseilio cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru.

Cytundebau rhynglywodraethol o fewn y DU yn ymwneud â diwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys y rhaglen fframweithiau cyffredin.

17. Ymatebodd CLILC i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Fil Marchnad Fewnol y DU. Roedd yr ymateb hwnnw yn egluro mai cytundebau llywodraethol gwirfoddol o fewn y DU drwy'r rhaglen fframweithiau cyffredin yw'r dewis a ffefrir o safbwynt sefydlu marchnad fewnol y DU. Byddai egwyddorion y Bil o gydnabyddiaeth gyffredin a dim gwahaniaethu yn tanseilio gallu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau ar faterion sydd wedi eu datganoli. Mae pryderon eraill yn ymwneud â'r pwerau arfaethedig i Lywodraeth y DU wario mewn meysydd datganoledig eraill drwy'r DU, gan fethu parchu'r setliad datganoli.

18. Sefydlodd marchnad fewnol yr UE lawr, oedd yn caniatáu Aelod-wladwriaethau a gweinyddiaethau datganoledig i fynd y tu hwnt i'r safonau a osodwyd. Y risg gyda'r egwyddorion yn y Bil yw y byddent yn galluogi un rhan o'r DU i dderbyn safonau is, a byddai'n rhaid i weddill y DU gydnabod hynny wedyn.